

CYNGOR BRO MACHNO

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Iau, 12fed o Orffennaf 2018 yn Festri Salem am 7.30

Presennol: Dafydd Gwyndaf (Cadeirydd), Eifion Davies, Lyn McFadden, Siân Anwyl Jones, Geraint Thomas ac Eryl Owain ynghyd â'r clerc, Elfed Williams.

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Claire Roberts, Dewi Jones a Colin Jones.

Elusen Plwyf Penmachno: Croesawyd Gareth Wyn Griffiths, Ysgrifennydd yr Elusen. Cyflwynwyd yr Adroddiad Ariannol Blynyddol ganddo. Wedi trafodaeth, a nodi bod swm sylweddol o arian wrth gefn gan yr Elusen, penderfynwyd gofyn i'r Ymddiriedolwyr ystyried rhannu mwy o'r arian er lles y gymuned a rhannu'r arian yn amlach nac unwaith y flwyddyn. Diolchwyd i Gareth Griffiths am ei waith.

Ethol Swyddogion: Cynigiwyd gan Eifion Davies ac eiliwyd gan Sian Anwyl fod yr un swyddogion yn aros. Derbyniwyd yn unfrydol.

Cofnodion: Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 16 Mawrth 2018 fel rhai cywir, Eifion Davies yn cynnig a Lyn McFadden yn eilio.

Materion yn codi:

Toiledau: Derbyniwyd adroddiadau bod cyflwr y toiledau'n anfodddhaol oherwydd eu bod yn aml heb eu glanhau a heb bapur tŷ bach. Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir, gan mai hwy sy'n parhau'n gyfrifol amdanynt. Penderfynwyd trafod cynlluniau ar gyfer glanhau'r toiledau yng nghyfarfod mis Medi.

Loriau trymion ger cyffordd y Felin Wlân: Roedd y clerc wedi cysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru i fynegi barn y Cyngor ond heb dderbyn ymateb. Penderfynwyd gwahodd cynrychiolwyr o Gyfoeth Naturiol Cymru i'r cyfarfod nesaf.

Cwynion am adeiladau: Nodwyd bod peth gwaith wedi ei wneud ar London House ond bod angen cadw llygad ar y datblygiadau. Penderfynwyd tynnu sylw at nifer o hen gerbydau ym maes parcio hen Westy'r Machno.

Ffyrdd: Mae'r clerc wedi trafod y materion a godwyd o ran cyflwr ffordd Hafod y Rhedwydd efo Kevin Jones o Gyngor Sir Conwy a fydd yn edrych ymhellach ar y sefyllfa.

Un Llais Cymru: Cafwyd adroddiad gan Sian Anwyl o gyfarfod a gynhaliwyd ym Mhentrefoelas.

Materion Ariannol: Penderfynwyd awdurdodi taliadau o £300 i John Burton am dorri llwybrau a £440 i Gyngor Conwy am logi sgipiau cymunedol.

Materion Cynllunio:

Mast Ffôn Gwasanaethau Argyfwng, Moel Llechwedd Hafod: Penderfynwyd cefnogi'r cais, Eryl Owain yn cynnig a Lyn McFadden yn eilio.

Addasu Sgubor Bryn Crug yn Lety Gwyliau: Wedi trafodaeth drylwyr, penderfynwyd gwrthwynebu'r cais, Eryl Owain yn cynnig a Geraint Thomas yn eilio oherwydd lleoliad yr adeilad mewn man agored ac y byddai newid i'w edrychiad. Roedd pryder hefyd y gallai agor y drws ar gyfer nifer o geisiadau eraill ar gyfer adeiladau gwag tebyg a phryder bod adroddiad fod waliau'r adeilad yn addas ar gyfer y datblygiad yn seiliedig ar archwiliad gweledol yn unig.

Materion Eraill:

Cerbyd yn achosi rhwystr yn White Street: Addawodd y Cadeirydd gaewl gair â'r perchennog.

Mynwent yr Eglwys: Yn dilyn derbyn cŵyn bod tyllau mewn rhannau o'r fynwent, penderfynwyd cynnal archwiliad yn union wedi'r cyfarfod a thrafod ymhellach ym mis Medi.